Gweithgareddau Amrywiol

Jambo Werin

Treuliodd y dosbarthiadau Iau brynhawn difyr yn y Neuadd Fawr. Dyma adroddiad Siân Robinson (blwyddyn 6) o'r achlysur:

Y Jambori

Aethom ni, Ysgol Penrhyn-coch, i'r Jambori a chael llawer o hwyl yn canu efo Linda Healy.

Aethom ni ar y bws i Ganolfan y Celfyddydau ac aros yn y cyntedd cyn mynd i'r Neuadd Fawr lle roedd y band a Linda yn aros. Aeth tua deng munud heibio cyn i ni fynd i mewn.

Roedd hanner y neuadd wedi'i llenwi ac roeddem ni tua pedwar neu bump llinell o'r tu-blaen.

Canu 'Joio yn y Jambori' wnaethon ni gyntaf. Wedyn 'Fflat Huw Puw' a 'Canu Roc-a-Rol' a 'Don y Meicrodon'. Canon ni ddeg cân.

Roedd yr athrawon yn gorfod mynd lan ar y llwyfan a chanu 'Hen Feic Penni-Farthing Fy Nhaid'. Roedd pawb yn chwerthin ar ben Mr John a oedd yn trio dianc o'r llwyfan! (Llynedd roedd Mr John wedi gorfod canu 'Oes Gafr Eto?' ar ben ei hun).

Gwnaethom ganu pen blwydd hapus i Miss Davies, athrawes Trefeurig.

Ar ôl canu 'Mister Blaidd' aethom ni nôl i'r ysgol eto ar y bws.

gan
Siân Robinson